Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus
Ceredigion
Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus

Caru·Love Ceredigion

| Eitem | Dyddiad | |
|---|---|---|
| | 09/02/2026 | |
| **Teitl** | | |
| Diweddariad yr is-grŵp tlodi | | *Er gwybodaeth* |
| **Yn bresennol yn y cyfarfod** | | |
| Y Cynghorydd Catrin Davies – CSC, Aelod Cabinet a Hyrwyddwr Cydraddoldeb (Cadeirydd)<br>Y Cynghorydd Elaine Evans – CSC, Eiriolwr yn Erbyn Tlodi, (Is-gadeirydd)<br>Ann Ireland – CSC, Refeniw, Budd-daliadau ac Asesiadau Ariannol<br>Cathryn Morgan – CSC, Cydraddoldeb a Chynhwysiant<br>Hazel Lloyd-Lubran – CAVO<br>Louisa Adams - Plant Dewi, Rhwydwaith y Canolfannau i Deuluoedd yng Ngheredigion<br>Christina Jenkins – Plant Dewi, Rhwydwaith y Canolfannau i Deuluoedd yng Ngheredigion<br>Mark Gleeson – CSC, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau<br>Timothy Bray – CSC, Partneriaethau ac Argyfyngau Sifil<br>Rob Starr – CSC, Perfformiad ac Ymchwil<br>Iwan Davies – CSC, Ymyrraeth Gynnar<br>Tomos Smith – Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda, Dadansoddwr Iechyd y Cyhoedd<br>Gethin Jones – CSC, Gwasanaeth Ieuenctid<br>Peter Hughes – Nyth<br>Arwyn Davies – CSC, yr Economi ac Adfywio<br>Gogledd Ben – Hafren Gwy | | |
| **Pwyntiau Allweddol a drafodwyd yng nghyfarfod yr is-grŵp: 20/01/2026** | | |

1. **Adroddiad ynghylch data** (Tomos Smith, Dadansoddwr Iechyd y Cyhoedd)

Mae 22% o bobl yng Nghymru yn byw mewn tlodi – dyma’r gyfran uchaf ymhlith gwledydd y Deyrnas Unedig.

Ledled Cymru, mae’r bwlch yn y disgwyliad oes rhwng pobl sy'n byw mewn tlodi a'r rhai nad ydynt yn byw mewn tlodi yn un sylweddol ac mae’r bwlch hwnnw’n ehangu. (o ran menywod, mae’r bwlch yn 6.5 mlynedd ac o ran dynion, mae’r bwlch yn 7.8 mlynedd).

Mae cysylltiad cryf rhwng ffactorau economaidd-gymdeithasol ac ymddygiad pobl o ran eu hiechyd e.e. ysmygu, bwyta bwydydd afiach, peidio â gwneud digon o ymarfer corff ac yfed gormod o alcohol.

Mae pobl sy'n byw mewn ardaloedd difreintiedig yn fwy tebygol o’i chael hi’n anodd talu costau trafnidiaeth a gwresogi ac maent yn fyw tebygol o fyw mewn tai o ansawdd gwael. Hefyd, mae ganddynt lai o fynediad at addysg a hyfforddiant. Ar ben hynny, mae’r cynnydd mewn costau byw a’r newid yn yr hinsawdd yn eu taro nhw’n galetach.

Mae proffil Clwstwr Meddygon Teulu De Ceredigion yn dangos cynnydd mewn cyflyrau cronig (diabetes, asthma a strôc) a lefelau uchel o ymddygiad nad ydyw’n iach (gordewdra, ysmygu, bwyta llai o ffrwythau a llysiau). Mae llai yn manteisio ar y cyfle i gael apwyntiadau ar gyfer sgrinio ac imiwneiddio. Noder nad oedd gennym drosolwg o broffil Clwstwr Meddygon Teulu Gogledd Ceredigion.

Mae gan Geredigion (a Sir Gaerfyrddin a Sir Benfro) boblogaethau sy'n heneiddio, h.y. llawer o bobl 55 oed a throsodd. Rhagwelir y bydd y rhanbarth yn ei chael hi’n anodd dod o hyd i weithlu o bobl iau i ddarparu gofal iechyd a chymdeithasol oherwydd demograffeg y boblogaeth a chyfradd geni sy'n gostwng.

Mae'r model cymdeithasol ar gyfer iechyd a llesiant yn edrych y tu hwnt i ysbytai a meddygaeth. Mae gan bob un ohonom rôl i'w chwarae. Dyma’r pethau sy'n ein gwneud ni'n iach:

- Ymddygiad iach (50%)
- Ein hamgylchedd (20%)
- Geneteg (20%)
- Mynediad at ofal (10%)

Rydym yn gwario ar y canlynol er mwyn bod yn iach:

- Gwasanaethau meddygol (88%)
- Ymddygiad iach (4%)
- Pethau eraill (8%)

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i Gymru ddod yn Genedl Marmot fel rhan o'r gwaith sy'n mynd rhagddo i fynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd.

2. **Blaenoriaethau'r is-grŵp tlodi**

Nodau allweddol:

- Rhannu gwybodaeth am y cymorth sydd ar gael, ymchwil defnyddiol a phrofiad lleol o dlodi.

ac

- Olrhain y cynnydd a wneir o ran mynd i'r afael â thlodi ac anghydraddoldebau yng Ngheredigion gan ddefnyddio data a chymryd camau lle bo angen.

Mae'r rhain yn cael eu monitro trwy ein blaengynllun gwaith. Rydym wedi sefydlu grŵp gorchwyl a gorffen i adolygu ein nodau a'n blaengynllun gwaith a nodi beth arall y gallwn ei wneud i fynd i'r afael â thlodi ac effaith tlodi yng Ngheredigion.

Yng nghyfarfod cychwynnol y grŵp Gorchwyl a Gorffen, gwnaethom gytuno ynghylch y canlynol:

- Mae cyfarfodydd yr is-grŵp Tlodi yn dda ar gyfer rhwydweithio ond braidd yn strategol ar gyfer rhai gweithwyr gweithredol.
- Mae data yn cael ei rannu'n rheolaidd ond nid ydym yn cymryd digon o gamau i fynd i'r afael â'r hyn yr ydym ni'n ei glywed.
- Nid yw'r negeseuon yr ydym ni'n eu rhannu yn cyrraedd y bobl sy'n wynebu tlodi.
- Mae angen gwell trefniadau cydlynu rhwng y grwpiau sy'n darparu sesiynau rheolaidd mewn lleoliadau sefydlog a'r darparwyr peripatetig sydd angen dod o hyd i leoliadau.
- Byddai'r is-grŵp Tlodi yn elwa o gael adnoddau oddi wrth aelodau mwyaf y BGC er mwyn cefnogi ein dyhead o fynd i'r afael â thlodi yn effeithiol.

Cytunodd yr is-grŵp Tlodi â hyn ac ychwanegodd fod angen cryfhau'r cysylltiadau â Strategaeth Economaidd Ceredigion. Gallwn hefyd wneud mwy i rannu profiadau pobl o dlodi gyda gwneuthurwyr penderfyniadau a llunwyr polisi.

Rhannodd yr aelodau eu blaenoriaethau ar gyfer y 2 flynedd nesaf er mwyn ein helpu i sicrhau cyd-ddealltwriaeth a nodi meysydd ar gyfer cydweithio. Bydd dau gyfarfod arall o'r grŵp Gorchwyl a Gorffen yn cael eu cynnal fel y gallwn ganolbwyntio ar y blaenoriaethau a rennir ar gyfer y dyfodol.

3. **Materion eraill**

**3a**. Bydd aelodaeth yr is-grŵp Tlodi yn cael ei adolygu gan nad yw sawl person ar y rhestr bostio bellach yn mynychu'r cyfarfodydd.

| |
|---|
| **3b**. Atgoffwyd yr Aelodau mai’r dyddiad cau ar gyfer grant Cynhwysiant Digidol Llywodraeth Cymru yw 9 Chwefror 2026<br><br>**3c**. Bydd Hafren Gwy yn cynnal digwyddiad yn Aberteifi ar 29 Ionawr i roi cyngor i bobl am ynni.<br><br>**3d**. Mae Dŵr Cymru yn cynnig hyfforddiant i gyrff eraill sy’n darparu cyngor am ynni fel y gallant roi cymorth ar y cyd i bobl sy'n ei chael hi’n anodd talu biliau dŵr. Bydd grŵp y 'darparwyr cyngor ar ynni' yn cael ei ailgynnull er mwyn cynnal sesiwn ar y cyd ynglŷn â hyn. |
| **Dyddiad y cyfarfod nesaf:** 16 Ebrill 2026 |
| **Swyddog Adrodd:** Cathryn Morgan, Cydraddoldeb a Chynhwysiant, Cyngor Ceredigion |